

wrthych: 'Nid yw unrhyw was yn fwy na'i feistr.' Os erlidiasant fi, fe'ch erlidiant chwithau; os cadwasant fy ngair i, fe gadwant yr eiddoch chwithau. Fe wnânt hyn oll i chwi o achos fy enw i, am nad ydynt yn adnabod yr hwn a'm hanfonodd i. Pe buaswn i heb ddod a llefaru wrthynt, ni buasai ganddynt bechod. Ond yn awr nid oes ganddynt esgus am eu pechod. Y mae'r sawl sy'n fy nghasáu i yn casáu fy Nhad hefyd. Pe na buaswn wedi gwneud gweith-redoedd yn eu plith na wnaeth neb arall, ni buasai ganddynt bechod. Ond yn awr y maent wedi gweld, ac wedi casáu fy Nhad a minnau. Ond rhaid oedd cyflawni'r gair sy'n ysgrifenedig yn eu Cyfraith hwy: 'Y maent wedi fy nghasáu heb achos.' "Pan ddaw'r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy'n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi. Ac yr ydych chi hwyd yn tystiolaethu, am eich bod gyda mi o'r dechrau.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

greater than their master." If they persecuted me, they will persecute you; if they kept my word, they will keep yours also. But they will do all these things to you on account of my name, because they do not know him who sent me. If I had not come and spoken to them, they would not have sin; but now they have no excuse for their sin. Whoever hates me hates my Father also. If I had not done among them the works that no one else did, they would not have sin. But now they have seen and hated both me and my Father. It was to fulfil the word that is written in their law, "They hated me without a cause." "When the Advocate comes, whom I will send to you from the Father, the Spirit of truth who comes from the Father, he will testify on my behalf. You also are to testify because you have been with me from the beginning.

This is the Gospel of the Lord.
Praise to you, O Christ.

Simon a Jwdas, Apostolion Simon and Jude, Apostles

Meithrin Gobaith
ESGOBAETH TYDDEWI
DIOCESE of ST DAVIDS
Growing Hope

Colect

Hollalluog Dduw, gelwaist Luc y Ffisigwr, sydd â'i glod yn yr efengyl, i fod yn efengylwr a meddyg i'r enaid trwy ras yr Ysbryd a thrwy feddyginiaeth iachusol yr efengyl, dyro i'th Eglwys yr un cariad a gallu i iacháu; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân yr holl anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth.
Amen

Darlleniad o Eseia (28.14-16)

Am hynny, gwrandewch air yr Arglwydd, chwi wŷr gwatwarus, penaethiaid y bobl hyn sydd yn Jerwsalem. Yr ydych chi'n dweud, "Gwnaethom gyfamod ag angau a chynghrair â Sheol: pan fydd y ffrewyll lethol yn mynd heibio, ni fydd yn cyffwrdd â ni, am inni wneud celwydd yn noddfa inni a cheisio lloches mewn twyll." Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: "Wele fi'n gosod carreg sylfaen yn Seion, maen a brofwyd, congylfaen gwerthfawr, sylfaen safadwy; ni frysia'r sawl sy'n credu.

Dyma air yr Arglwydd
Diolch a fo i Dduw

Collect

Almighty God, who built your Church upon the foundation of the apostles and prophets with Jesus Christ himself as the chief corner-stone: so join us together in unity of spirit by their doctrine, what we may be made a holy temple acceptable to you; through Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. **Amen**

A reading from Isaiah (28.14-16)

Therefore hear the word of the Lord, you scoffers who rule this people in Jerusalem. Because you have said, 'We have made a covenant with death, and with Sheol we have an agreement; when the overwhelming scourge passes through it will not come to us; for we have made lies our refuge, and in falsehood we have taken shelter'; therefore thus says the Lord God, See, I am laying in Zion a foundation stone, a tested stone, a precious cornerstone, a sure foundation: 'One who trusts will not panic.'

This is the word of the Lord
Thanks be to God

Darlleniad o Effesiaid (2.19-22)

Felly, nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyddinasyddion â'r saint ac aelodau o deulu Duw. Yr ydych wedi eich adeiladu ar sylfaen yr apostolion a'r proffwydi, a'r congfaen yw Crist Iesu ei hun. Ynddo ef y mae pob rhan a adeiledir yn cyd-gloi yn ei gilydd ac yn codi'n deml sanctaidd yn yr Arglwydd. Ynddo ef yr ydych chwithau hefyd yn cael eich cydadeiladu i fod yn breswylfod i Dduw yn yr Ysbryd.

Dyma air yr Arglwydd
Diolch a fo i Dduw

Salm 119.89-96

Y mae dy air, O Arglwydd yn dragwyddol : wedi ei osod yn sefydlog yn y nefoedd.

Y mae dy ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth : seiliaist y ddaear ac y mae'n sefyll.

Yn ôl dy ordeiniadau y maent yn sefyll hyd heddiw : oherwydd gweision i ti yw'r cyfan.

Oni bai i'th gyfraith fod yn hyfrydwch i mi : byddai wedi darfod amdanaf yn fy adfyd;

A reading from Ephesians (2.19-22)

So then you are no longer strangers and aliens, but you are citizens with the saints and also members of the household of God, built upon the foundation of the apostles and prophets, with Christ Jesus himself as the cornerstone. In him the whole structure is joined together and grows into a holy temple in the Lord; in whom you also are built together spiritually into a dwelling-place for God.

This is the word of the Lord
Thanks be to God

Psalms 119.89-96

O Lord, your word is everlasting : it ever stands firm in the heavens.

Your faithfulness also remains from one generation to another : you have established the earth and it abides.

So also your judgements stand firm this day : for all things are your servants.

If your law had not been my delight : I should have perished in my trouble.

Nid anghofiaf dy ofynion hyd byth : oherwydd trwyddynt hwy adfywiaist fi.

Eiddot ti ydwyf gwareda fi : oherwydd ceisiais dy ofynion.

Y mae'r drygionus yn gwyllo amdanaf i'm dinistrio : ond fe ystyriaf fi dy farnedigaethau.

Gwelaf fod popeth yn dod i ben : ond nid oes terfyn i'th orchymyn di.

I will never forget your commandments : for by them you have given me life.

I am yours, O save me! : For I have sought your commandments.

The wicked have waited for me to destroy me : but I will meditate on your testimonies.

I have seen an end of all perfection : but your commandment knows no bounds.

Gwrandewch Efengyl Crist
yn ôl Sant Ioan
Gogoniant i ti, O Arglwydd

Ioan 15.17-27

Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi: carwch eich gilydd.

"Os yw'r byd yn eich casáu chwi, fe wyddoch ei fod wedi fy nghasáu i o'ch blaen chwi. Pe baech yn perthyn i'r byd, byddai'r byd yn caru'r eiddo'i hun. Ond gan nad ydych yn perthyn i'r byd, oherwydd i mi eich dewis chwi allan o'r byd, y mae'r byd yn eich casáu chwi. Cofiwch y gair a ddywedais i

Listen to the Gospel of Christ
according to Saint John
Glory to you, O Lord.

John 15.17-27

I am giving you these commands so that you may love one another.

'If the world hates you, be aware that it hated me before it hated you. If you belonged to the world, the world would love you as its own. Because you do not belong to the world, but I have chosen you out of the world - therefore the world hates you. Remember the word that I said to you, "Servants are not